OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 2915 (Cy.240)

PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

Gorchymyn Pysgod Môr (Ardal Benodedig) (Gwahardd Offer Gosod) (Cymru) 2010

Gwnaed - - - - *7 Rhagfyr 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - *9 Rhagfyr 2010*
Yn dod i rym - - *1 Ionawr 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, wrth arfer y pwerau a roddwyd gan adran 5(1) a (9) o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pysgod Môr (Ardal Benodedig) (Gwahardd Offer Gosod) (Cymru) 2010 a daw i rym ar 1 Ionawr 2011.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "yr ardal benodedig" ("*the specified area*") yw unrhyw ddyfroedd mewndirol neu ddyfroedd llanw yng Nghymru;

ystyr "brithyll mudol" ("*migratory trout*") yw brithyll sy'n mudo yn ôl ac ymlaen i'r môr;

mae i "Cymru" yr ystyr a roddir i "*Wales*" yn adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006((**2**)).

ystyr "dyfroedd llanw" ("*tidal waters*") yw unrhyw ran o'r môr neu unrhyw ran o afon sydd o fewn trai a gorllan y llanw ar lanw mawr arferol;

mae i "dyfroedd mewndirol" yr ystyr a roddir i "*inland waters*" yn adran 221(1) o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991(**3**);

mae "eog" ("*salmon*") yn cynnwys unrhyw bysgodyn o rywogaeth yr eog;

mae "offer gosod" ("*fixed engine*") yn cynnwys—

(**1**) 1967 p.84. Amnewidiwyd adrannau 5(1) a (9) gan adran 198 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p.23).
(**2**) 2006 p.32.
(**3**) 1991 p.57.